
*Rhif*: ***6*** *Seascape Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd:* **Dwyrain Bae Abergwaun**




**ACM6:Dwyrain Bae Abergwaun**



*Edrych o Benrhyn Dinas de-orllewin i gyfeiriad Abergwaun © PCNPA*



*Edrych i'r dwyrian i Benrhyn Dinas o faes carafanau Penrhyn*

| **Disgrifiad Cryno** |
|---|
| Mae Bae Abergwaun yn gorwedd ar ochr gogleddol arfordir Sir Benfro i'r dwyrain o Abergwaun ac yn ei ffinio mae clogwyni o gwmpas Trwyn Crincoed a Phenrhyn Dinas. Mae'n ddarn o draethlin greigiog gyda chlogwyni creigiog a llethrau serth, ynghyd â chreigiau ac ynysigau creigiog yn agos i'r dyfnfor, a dau gildraeth tywod y gellir mynd atynt (ar droed) yn cynnwys Aber Bach, gyda rhostir arfordirol ar ymyl y clogwyni a bryniau arfordirol bychain a thir ffermio bugeilio yn fewndirol. Mae yna olygfeydd eang o lwybr yr arfordir ac un maes carafanau amlwg. |
| **Nodweddion allweddol** |
| • Bae bas sy'n wynebu'r gogledd ac yn cael ei ddiffinio i'r dwyrain gan Benrhyn Dinas ac i'r gorllewin gan Drwyn Crincoed.<br>• Clogwyni cilfachog ac ysgythrog a llethrau serth a glannau creigiog gyda thraeth tywod bychan yn Aber Bach a childraethau bychain sy bron yn anghyraeddadwy megis yr un ym Mhwll Landdu.<br>• Ardal o fôr sy'n gymharol gysgodol ond clogwyni sy'n agored iawn.<br>• Brigiadau creigiog yn y mewndir ynghanol tir pori tonnog gyda rhostir arfordirol a rhedyn.<br>• Anheddiad ychydig yn ôl o'r arfordir ac eithrio un maes carafanau amlwg gydag adeiladau parhaol ar ben y clogwyni.<br>• Defnyddir y môr yn aml gan gychod rhwyfo (Badau Hirion Celtaidd), badau hwylio, badau modur a jet sgis sy'n dod allan o Abergwaun i mewn i'r dyfroedd hyn yn ogystal â chaiacwyr yn ymarfer yn agos i'r lan.<br>• Mae llwybr yr arfordir yn rhoi mynediad ar hyd pen y clogwyn ond ychydig o fynediad i gerbydau.<br>• Golygfeydd eang allan i'r môr, ar hyd Bae Abergwaun ac i'r dwyrain i Benrhyn Dinas. |
| **Dylanwadau Ffisegol** |
| Mae ochr de i'r dwyrain o Fae Abergwaun sy'n wynebu'r gogledd wedi'i gau i mewn gan bentir amlwg Penrhyn Dinas (107m aod). Mae'r clogwyni o gwmpas y bae, sy'n gyffredinol yn 30-65m aod, wedi'u llunio o gyfres o gerrig llaid a thywodfeini Ordovcian nodedig sy'n mynd i gyfeiriad dwyrain-gorllewin i ogledd-ddwyrain-de orllewin, gyda mwy o lafâu folcanig ymwrthol, tyffau a mewnwthiadau (Grŵp Folcanig Abergwaun). Mae'r arfordir creigiog yn gilfachog gyda childraethau bychain. Mae clogfeini ar draws y traethau ac ar draws y gwely môr bas o gwmpas yr arfordir. Mae yna amrywiaeth o lannau creigiog agored (88%) yn dominyddu'r ardaloedd rhynglanw, gyda thraethau graean bras culion bob ochr (12%) mewn cilfachau sy'n wynebu'r gogledd. Mae yna rhai ynysigau creigiog bychain (e.e. Pwll y Blewyn). Yng nghysgod y bae mae erydu arfordirol yn brin. Mae cludiant gwaddodion yn dorddwr yn aliniedig gydag ychydig o ddrifft y glannau, a chedwir gwaddod o fewn y bae.<br><br>Mae gwely môr o dywod lleidiog dros greigiau gwaddodol Ordovician a folcanig yn goleddu'n raddol(<1°) i'r bae bas (<20m). Mae'r moroedd yng nghysgod y bae yn agored i wasgiant tonnau isel. Mae'r cerrynt llanw tu allan i'r bae yn rhai gogledd dwyrain a de orllewin, gyda mewnlifiau i mewn i'r bae.<br><br>Mae'r glannau anghyraeddadwy a chreigiog yn annog defnydd gan forloi.<br><br>I'r de ddwyrain, mae'r mewndir agosaf yn donnog gyda phwyntiau uchel lleol a brigiadau creigiog nodedig megis yr un yng Ngharn Fran.<br><br>Mae llystyfiant lled naturiol rhostir a rhedyn yn gorchuddio'r llethrau uchaf. Mae glaswelltir bugeiliol gwell a heb ei wella yn gaeedig mewn caeau o faint canolig yn ffinio hyn gyda gwrychoedd isel yn cyrraedd ymyl y clogwyn mewn sawl man. Mae yna ddyffryn coediog cul yn symud i'r mewndir o Aber bach. |
| **Dylanwadau Diwylliannol** |
| Yn gyffredinol mae gan yr ardal gysylltiad gweledol cryf â'r daith fôr i Iwerddon a harbwr |

Abergwaun/Wdig gyda'i forgloddiau a'i geiau fel rhan o'r morwedd ehangach.

Olion yr Ail Ryfel Byd megis chwilolau arfordirol ym Mhenrhyn Ychen.

Mae henebion cofrestredig yn cynnwys:

- PE200 (maen hir): cymuned: Dinas Cross
- PE485 (croes): cymuned: Dinas Cross

Mae ymyl yr arfordir yn ardal denau ei phoblogaeth gyda'r rhan fwyaf o gartrefi yn gysylltiedig â ffordd yr arfordir, yr A487, ymhellach i mewn i'r tir mawr. Mae un maes carfanau amlwg gydag adeiladau parhaol yn y Penrhyn.

Mae hwylio, yn cynnwys rasio, i mewn i'r dyfroedd hyn yn digwydd allan o'r Cwm Abergwaun yn ogystal â chriwserau ar daith. Llwybr hwylio ar y môr yn cysylltu Abergwaun a mannau i'r gogledd ar Fae Ceredigion. Mae cychod rhwyfo (Llongau Hirion Celtaidd) a chriwserau modur a jet sgis yn dod o Abergwaun i'r dyfroedd hyn. Mae pysgota môr yn fyw iawn hefyd yn yr ardal hon, o'r lan ac o fadau. Mae caiacwyr yn dod i'r ardal o gyfeiriad y dwyrain.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydi gosod, cimwch a photio crancod a threillio dwrgwn ysgafn

Mae llongau fferi yn gweithredu allan o Abergwaun gyda fferi cerbydau a chatamarán i Rosslare a gellir eu gweld yn rheolaidd o'r clogwyni a'r badau yn yr ardal hon.

Mae yna gildraeth bychan yn Aber Bach sy'n boblogaidd iawn ar gyfer pysgota môr a gwylio bywyd gwyllt (morloi). Mae cerdded ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro yn parhau'n boblogaidd ac mae Pwll Landdu bron yn gyraeddadwy o'r llwybr. Mae dringo yn digwydd yng Nghraig y Nodwydd.

**Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol**

Arfordir ar raddfa fawr o ansawdd garw ac ysgythrog, ynghanol patrwm o bentiroedd cilfachog a childraethau bychain sydd yn anghyraeddadwy yn gyffredinol (o'r tir). Mae'r bryniau arfordirol bychain gyda'r rhostir arfordirol yn atgyfnerthu cymeriad lled naturiol ac yn cysgodi ffordd yr arfordir sydd ychydig yn ôl o'r glannau. Mae ymdeimlad o berygl wrth ymyl y clogwyn gyda llethrau serth ac mae'r arfordir yn teimlo'n agored iawn i'r môr a'r gwyntoedd o'r gogledd.

Yn gyffredinol mae'r arfordir yn teimlo'n ardal bellennig gydag ychydig o anheddau a bron dim mynediad i gerbydau, ond mae'r maes carafanau yn tynnu oddi wrth y syniad hwn o bellenigrwydd a naturioldeb. Mae yna olygfeydd hirion ar hyd yr arfordir gyda Phenrhyn Dinas yn dominyddu i'r dwyrain ac Abergwaun gyda'i anheddiad yn dringo bryniau uchel yr arfordir i'r gorllewin.

Bydd y môr yn teimlo'n gymharol lonydd a chysgodol rhag y gwyntoedd o'r de orllewin yn y bae a hynny efallai ydyw'r rheswm ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhwyfo. Bydd llawer o symud yn digwydd i'r gorllewin yn sgil badau fferi, badau modur, llongau hwylio a llongau eraill. Bydd yr arfordir yn dominyddu'r golygfeydd ar dair ochr gyda golygfeydd o'r môr heb eu difetha draw at y gorwel i gyfeiriad y gogledd.

**Buddion diwylliannol a gwasanaethau**

Mae'r ardal yn cyfrannu'n sylweddol tuag at wasanaethau hamdden ac adloniadol ar lun adloniant morol, llwybr yr arfordir a thraeth pellennig ond cyraeddadwy yn Aber Bach, at dreftadaeth naturiol ar lun y clogwyni sydd heb eu difetha bron a'r golygfeydd o'r môr, ac i wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â'r syniad o ddiffeithwch ac elfen o bellenigrwydd.

## Rhesymau Dros Newid

**Crynodeb**

Erydu arfordirol araf clogwyni creigiog. Mae Cynllun rheoli'r traeth yn datgan gwneud dim.

Gwasgedd posibl am ymestyn llety gwyliau neu faes carafanau.

Gall newidiadau rheoli tir newid cymeriad tir ffermio'r arfordir.

**Rhesymau allweddol dros newid**

| **Rhinweddau Arbennig** | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol- masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysblander yr arfordir | | ■ | | | ■ | ■ | |
| Ynysoedd | | | | | | | |
| Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | ■ | |
| Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | | | | ■ | | |
| Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | ■ | | | ■ | |
| Archaeoleg Gyfoethog | | | | | | | |
| Cymeriad Anheddiad Nodedig | | ■ | | | | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| Mynediad i'r Parc | ■ | | | | | ■ | |
| Lle i Anadlu | | | | | ■ | | |
| **Allwedd** | ■ | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig | | | | | |

## Sensitifeddau allweddol

Clogwyni pellennig, garw heb eu difetha a bryniau arfordirol.

Rhostir arfordirol ar glogwyni a bryniau.

Golygfeydd eang ac agored.

Llwybr Arfordir Sir Benfro yn dderbynnydd sensitif.

Maes carafanau.

Gweithgaredd morol Bae Abergwaun